Rhif: WG35770

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Darpariaeth gorfodi ar gyfer bwydydd at ddibenion meddygol arbennig

**Ymgynghoriad ar offeryn statudol drafft i orfodi rheoliad dirprwyedig yr UE ar fwydydd at ddibenion meddygol arbennig yng Nghymru.**

Dyddiad Cyhoeddi: 3 Hydref 2018
Camau i'w cymryd: Ymateb erbyn 31 Hydref 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth ddomestig, ar ffurf Offeryn Statudol diwygio, fel y gellir gorfodi Rheoliad 2016/128 yr UE yng Nghymru. Rydym yn ceisio barn y rhanddeiliaid ar briodoldeb y dull arfaethedig o orfodi, sy'n seiliedig ar Hysbysiadau Gwella. |
| **Sut i ymateb** | Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 31 Hydref 2018 mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:<br>• **Drwy'r ffurflen ar-lein**<br>• **Drwy neges e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol a dogfennau perthnasol** | Mae fersiynau mewn Print Bras, ar ffurf Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais. |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>**Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol**<br>Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: ffforddofyw@llyw.cymru |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 5 |
| **Cefndir** | 5 |
| **Cyfundrefn gorfodi arfaethedig** | 6 |
| **Cost bosibl** | 7 |
| **Siart lif sy’n dangos gweithdrefn gorfodi arfaethedig** | 8 |
| **Tabl sy’n dangos troseddau perthnasol i Reoliad Dirprwyedig FSMP (Bwydydd at Ddibenion Meddygol Arbennig) 2016/128** | 9 |
| **Cwestiynau’r ymgynghoriad** | 10 |

## Crynodeb

Mae Bwydydd at Ddibenion Meddygol Arbennig yn fwydydd arbenigol a fwriedir ar gyfer bwydo pobl nad yw'n bosibl diwallu eu hanghenion maeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan fwydydd normal.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth ddomestig, ar ffurf Offeryn Statudol diwygio, fel y gellir gorfodi Rheoliad 2016/128 yr UE ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig yng Nghymru. Rydym yn ceisio barn y rhanddeiliaid ar briodoldeb y dull arfaethedig o orfodi, sy'n seiliedig ar Hysbysiadau Gwella.

Yr OS i'w ddiwygio ar gyfer Cymru yw Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad)(Cymru) 2016, OS 2016 Rhif 639 (C. 175).

## Cefndir

Mae Rheoliad rhif 2016/128 (yr UE) ar Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig yn Rheoliad Dirprwyedig o dan Reoliad Fframwaith 609/2013 bwyd ar gyfer grwpiau penodol (FSG). Fe'i cymeradwywyd ar 25 Medi 2015 er mwyn mabwysiadu gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth am fwyd at ddibenion meddygol arbennig, gan ystyried darpariaethau Rheoliad 1999/21/EC (sef, y ddeddfwriaeth bresennol wedi'i chytuno ar fwydydd deietegol at ddibenion meddygol arbennig, a weithredir yng Nghymru gan Reoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000).

Mae Rheoliad FSG 609/2013 yn gosod gofynion cyffredinol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer gwahanol gategorïau bwyd, gan gynnwys FSMP. Gorfodir hyn yng Nghymru drwy Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad (Cymru) 2016.

Mae Rheoliad Dirprwyedig FSMP 2016/128 yn berthnasol i bob Aelod-wladwriaeth o **22 Chwefror 2019** ymlaen, ac eithrio ynghylch Bwydydd at Ddibenion Meddygol Arbennig sydd wedi eu datblygu ar gyfer anghenion maeth babanod, a fydd yn gymwys o **22 Chwefror 2020** ymlaen. Gan y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth 2019, ni allwn gadarnhau statws y newidiadau a ddaw i rym ar 22 Chwefror 2020. Felly, ni fydd yr OS drafft hwn yn cynnwys y darpariaethau ar gyfer FSMP babanod. Bydd rhagor o wybodaeth ar hynny ar gael pan fydd sefyllfa'r DU ar ôl yr ymadawiad yn derfynol.

Bydd yr OS hwn yn diwygio Rheoliadau Bwydydd ar gyfer Grwpiau Penodol (Cymru) 2016 i orfodi Rheoliad Dirprwyedig FSMP yng Nghymru ac i ddiddymu Rheoliadau Bwyd Meddygol 2000 ar gyfer FSMP sy'n wahanol i'r rhai hynny sydd at ddibenion diwallu anghenion maeth babanod, y bydd Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000 yn parhau i fod yn gymwys iddynt.

Bydd yr OS hwn hefyd yn gorfodi Erthygl 15 a'r Atodiad i Reoliad FSG 609/2013 ynglŷn â rhestr sylweddau'r Undeb y ceir eu hychwanegu at Fwydydd at Ddibenion Meddygol Arbennig, a ddaw i rym ar ddyddiad cymhwyso'r Rheoliad Dirprwyedig.

Daw'r cyfnod trosiannol, ar gyfer cydymffurfiaeth gyflawn â'r gofynion newydd o ran cyfansoddiad a labelu, i ben ar 22 Chwefror 2019. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, bydd yn rhaid i bob FSMP a roddir ar y farchnad (ac eithrio'r rhai hynny sydd ar gyfer babanod) gydymffurfio â Rheoliad Dirprwyedig 2016/128.

## Cyfundrefn gorfodi arfaethedig

Rydym yn ymgynghori ar gynnig i ehangu'r gyfundrefn gorfodi sydd eisoes yn bodoli ac sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth FSG (609/2013 - gweler Ffigur 1) fel y bydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y Rheoliad Dirprwyedig FSMP newydd (2016/128) ac ar gyfer Erthygl 15 a'r Atodiad i Reoliad FSG 609/2013. Ar hyn o bryd, os dedfrydir bod gweithredydd y busnes bwyd yn euog o drosedd o dan Reoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000, gallai fod yn destun cosb droseddol. Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan Reoliadau FSG yn 2016 i ganiatáu ar gyfer y defnydd o Hysbysiadau Gwella (HG) fel cam cyntaf amgen. Rydym yn cynnig mai'r cam cyntaf ffurfiol o orfodi'r Rheoliad Dirprwyedig newydd ac Erthygl 15 a'r Atodiad fyddai rhoi HG yn hytrach na chosb droseddol. Mae'r estyniad arfaethedig o ddefnyddio HG, wedi'i ddilyn gan ddedfrydu am drosedd wrth fethu â chydymffurfio â HG, mewn gwirionedd yn dad-droseddoli troseddau rheoleiddiol mewn achosion priodol. Fodd bynnag, ceir defnyddio cosbau troseddol eo hyd ar gyfer troseddau difrifol sy'n torri deddfwriaeth berthnasol arall (e.e. os penderfynir bod bwyd yn niweidiol i iechyd, yn groes i Adran 7 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990).

Mae HG eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Rheoliad FSG ac mewn meysydd eraill perthnasol i labelu bwyd (e.e. Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd 2014). Felly mae'r diwydiant, yn ogystal â Swyddogion Safonau Masnachu, eisoes yn deall HG ac mae'n gweithio'n dda yn ôl pob tebyg. Mae HG yn ddull mwy hyblyg o roi amser ychwanegol a chymorth i ddiwydiant ddatrys y broblem a nodwyd yn yr HG, sy'n ei alluogi i gydymffurfio cyn i'r achos gael ei uwchgyfeirio i fod yn drosedd.

Gall torri Rheoliad FSMP fod yn berthnasol i drosedd ynghylch naill ai (i) y gofynion o ran cyfansoddiad neu (ii) y gofynion o ran labelu FSMP. Mae'r dull gorfodi yn seiliedig ar risg ac felly byddai yr un â'r dull gorfodi ar gyfer FSG a nodwyd yn Ffigur 1. Y bwriad yw y caiff darpariaethau gorfodi anffurfiol eu defnyddio yn bennaf yn y lle cyntaf (e.e. rhybuddion ar lafar ac yn ysgrifenedig) er mwyn sicrhau bod y labelu yn cydymffurfio â'r Rheoliad. Os yw'r swyddog awdurdodedig yn credu na fydd dull anffurfiol yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, yna dylid ystyried dull mwy ffurfiol a gellid rhoi HG. Fodd bynnag, pan fydd risg uniongyrchol i iechyd y cyhoedd (e.e. gofynion o ran cyfansoddiad) dylai'r swyddog awdurdodedig weithio gyda'r busnes i sicrhau y caiff y bwyd ei dynnu oddi ar y farchnad o dan bwerau Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Ar ôl lleihau'r risg i'r defnyddwyr sy'n agored i niwed, ceir defnyddio darpariaethau gorfodi anffurfiol i sicrhau bod y bwyd yn cydymffurfio a'r Rheoliad.

Mae dilyn yr egwyddorion seiliedig ar risg yn golygu y bydd y rhan fwyaf o'r achosion o dorri'r Rheoliad yn arwain at gamau gorfodi anffurfiol a all gael eu huwchraddio i roi HG. Gall methu â chydymffurfio â HG arwain at gosbau troseddol.

### Proses apelio

Ar ôl ei roi, gellir gwneud apêl gerbron y Llys Ynadon os nad yw'r busnes yn cytuno ag amodau'r Hysbysiad. Cynhelir y broses apelio yn unol â HG a roddwyd ar gyfer

Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016.

Prif ddiben unrhyw gamau gorfodi fydd sicrhau cydymffurfiaeth yn y modd mwyaf effeithiol a dylai'r dull a ddefnyddir fod yn unol â "hierarchaeth gorfodi" fel y nodwyd yn y Penodau ar orfodi yn y Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd https://www.food.gov.uk/cy/about-us/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid. Dylid defnyddio HG FSMP yn unol â pholisi gorfodi yr awdurdod lleol ac mae'n rhaid iddo gael ei ystyried yn rhan o uwchgyfeirio camau gorfodi yn unol â hierarchaeth gorfodi.


## Costau posibl

Mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r OS arfaethedig yn fach iawn i Gymru. Amcangyfrifir y bydd yn cymryd oddeutu un awr i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarllen a deall yr OS newydd, a hynny ar gost o £27 yr awr. Mae hyn yn cyfateb i £594 ar gyfer Cymru gyfan.

Amcangyfrifir y bydd yn cymryd dwy awr i fusnesau ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd, a hynny ar gost o £53.40. Fodd bynnag, nid oes busnesau FSMP hysbys yn gweithio yng Nghymru. Felly amcangyfrifir mai sero fyddai'r gost i ddiwydiant Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gost bosibl i awdurdodau gorfodi a diwydiant yn yr Asesiad o Effaith.

## Siart llif sy'n dangos y weithdrefn gorfodi arfaethedig



| | |
|---|---|
| Compositional or labelling breach of Food for Specific Groups (2016) Regulations identified | Nodwyd achos torri Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (2016) ynglŷn â chyfansoddiad neu labelu |
| Risk of serious harm to health? Yes/No | Risg o niwed difrifol i iechyd? Oes/Nagoes |
| Enforcement officers to work with the Food Business Operator to ensure that the food is removed from the market | Swyddogion gorfodi i weithio gyda Gweithredydd y Busnes Bwyd i sicrhau bod y bwyd yn cael ei dynnu oddi ar y farchnad |
| Use informal enforcement such as written or verbal communication | Defnyddio gorfodi anffurfiol megis cyfathrebu ar lafar neu'n ysgrifenedig |
| In severe cases, but the enforcement will not come from this SI | Mewn achosion difrifol, ond ni ddaw'r camau gorfodi o'r OS hwn |
| Is the business still non-compliant? Yes/No | A yw'r busnes yn methu â chydymffurfio o hyd? Ydy/Nac ydy |
| Enforcement action: IMPROVEMENT NOTICE | Cam gorfodi: HYSBYSIAD GWELLA |
| Problem resolved – no further action required | Problem wedi'i datrys – nid oes angen camau pellach |
| The business can appeal | Caiff y busnes apelio |
| Is the Food Business Operator still non-compliant? | A yw Gweithredydd y Busnes Bwyd yn dal i fethu â chydymffurfio? |
| Enforcement action: CRIMINAL OFFENCE | Cam gorfodi: TROSEDD |
| Problem resolved – no further action required | Problem wedi'i datrys – nid oes angen camau pellach |

# Tabl sy’n dangos troseddau perthnasol i Reoliad Dirprwyedig FSMP 2016/128

| **Darpariaeth y Rheoliad Dirprwyedig ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig** | **Darpariaethau i’w darllen ynghyd â darpariaeth y Rheoliad Dirprwyedig ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig** | **A gafodd hyn ei orfodi o dan Reoliadau Bwyd Meddygol cyfredol? Do/Naddo** |
|---|---|---|
| Erthygl 2(2) (gofyniad ar gyfer diogelwch, budd ac effeithiolrwydd y fformwleiddiad) | Erthygl 1 | Do |
| Erthygl 2(3), ail baragraff (gofynion o ran cyfansoddiad fel y bydd y bwyd yn cydymffurfio â Rhan B o Atodiad I) | Erthyglau 1 a 2(4) a Rhan B o Atodiad I | Do |
| Erthygl 3(2) (gofyniad ynglŷn â lefelau gwaddodion) hyd y bo’n berthnasol i blant ifanc yn hytrach na babanod. | Erthyglau 1 a 3(1), (3) a (5) ac Atodiad II | Gofyniad newydd |
| Erthygl 3(4) (gwaharddiad rhag defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion) hyd y bo’n berthnasol i blant ifanc yn hytrach na babanod. | Erthyglau 1 a 3(1) a (5) ac Atodiad III | Gofyniad newydd |
| Erthygl 4 (gofynion o ran enwi bwyd) | Erthygl 1 ac Atodiad IV | Do |
| Erthygl 5(2) (a)-(i) (gofynion penodol ar gyfer gwybodaeth bwyd) | Erthygl 1 a 5(1) a 5(3) | Do |
| Erthygl 6 (gofynion arbennig ar gyfer y datganiad maeth) | Erthygl 1 ac Atodiad I | Gofyniad newydd |
| Erthygl 7 (gwaharddiadau maeth a hawliadau iechyd) | Erthygl 1 | Gofyniad newydd |
| Erthygl 9 (hysbysu’r awdurdodau cymwys ynglŷn â rhoi bwyd at ddibenion meddygol arbennig ar y farchnad) | Erthygl 1 | Do |
| **Darpariaeth y Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol** | **Darpariaethau i’w darllen ynghyd â darpariaeth y Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol** | |
| Erthygl 15(1) (rhestr yr Undeb) | Erthygl 1(1)(c) a 4(1) a’r Atodiad hyd y bo’n berthnasol i fwydydd at ddibenion meddygol arbennig | |

## Cwestiynau

1. **A ydych yn fodlon y byddai'r cam cyntaf ffurfiol ar gyfer achosion o dorri Rheoliad FSMP (fel a ddangosir yn y tabl yn y ddogfen ymgynghori) yn Hysbysiad Gwella yn unol â darpariaethau gorfodi Rheoliadau Bwydydd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 (gorfodi Rheoliad 609/2013 yr UE)?**

[Sylwer na fyddai hyn yn atal rhag erlyn troseddau fel cam cyntaf pe byddai'r achos o dorri rheoliad yn drosedd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (e.e. os penderfynwyd bod y bwyd yn niweidiol i iechyd yn groes i adran 7). Yn yr achosion hynny, ni fyddai'r swyddog awdurdodedig yn erlyn am dorri rheoliadau FSMP ond yn hytrach am dorri Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Hefyd, gallai methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella, a roddir o dan reoliad FSMP, arwain at gosbau troseddol.]

Wrth roi eich ymateb, gallech fod yn dymuno ystyried:

- Y costau perthnasol o roi/ymateb i Hysbysiad Gwella, o'i gymharu â chamau achos llys uniongyrchol;
- Cyflymder cymharol datrys problemau; ac
- Effeithiolrwydd perthnasol ac effaith ataliol y gwahanol ddulliau gorfodi.

2. **A ydych yn fodlon bod y darpariaethau cywir ar gyfer Rheoliad Dirprwyedig 2016/128 wedi eu nodi at ddibenion gorfodi yn y tabl yn y ddogfen ymgynghori?**

3. **A oes gennych unrhyw sylwadau pellach?**

# Ymgynghoriad ar ddarpariaeth gorfodi ar gyfer bwydydd at ddibenion meddygol arbennig

## Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 31 Hydref 2018 i:

**Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol**
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu lenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i: fforddofyw@llyw.cymru

1. **A ydych yn fodlon y byddai'r cam cyntaf ffurfiol ar gyfer achosion o dorri Rheoliad FSMP (fel a ddangosir yn y tabl yn y ddogfen ymgynghori) yn Hysbysiad Gwella yn unol â darpariaethau gorfodi Rheoliadau Bwydydd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 (gorfodi Rheoliad 609/2013 yr UE)?**

[Sylwer na fyddai hyn yn atal rhag erlyn troseddau fel cam cyntaf pe byddai'r achos o dorri rheoliad yn drosedd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (e.e. os penderfynwyd bod y bwyd yn niweidiol i iechyd yn groes i adran 7). Yn yr achosion hynny, ni fyddai'r swyddog awdurdodedig yn erlyn am dorri rheoliadau FSMP ond yn hytrach am dorri Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Hefyd, gallai methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella, a roddir o dan reoliad FSMP, arwain at gosbau troseddol.]

Wrth roi eich ymateb, efallai yr hoffech ystyried:

- Y costau perthnasol i roi/ymateb i Hysbysiad Gwella, o'i gymharu â chamau achos llys uniongyrchol;
- Cyflymder cymharol datrys problemau; ac

- Effeithiolrwydd perthnasol ac effaith ataliol y gwahanol ddulliau gorfodi.

2. **A ydych yn fodlon bod y darpariaethau cywir ar gyfer Rheoliad Dirprwyedig 2016/128 wedi eu nodi at ddibenion gorfodi yn y tabl yn y ddogfen ymgynghori?**

3. **A oes gennych unrhyw sylwadau pellach?**

| |
|---|
| Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐ |